VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG	Grŵp Llywio Aelodau – Prosiect Gwyrdd Tredomen
	CYFARFOD – 31 Hydref 2007

Yn Bresennol:

Aelodau Etholedig

Y Cyng. D. Poole, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (Cadeirydd)
Y Cyng. G. Jones, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Y Cyng. R. Curtis, Cyngor Bro Morgannwg
Y Cyng. E. Saxon, Cyngor Sir Fynwy
Y Cyng. E. Morgan, Cyngor Sir Caerdydd
Y Cyng. M Stephens, Cyngor Sir Caerdydd

Swyddogion:

Mr. D. Harris, Cyngor Sir Fynwy
Mrs Joyce Steven, Cyngor Dinas Casnewydd
Mr. S. Davison, Cyngor Dinas Casnewydd
Mr G Price, Cyngor Dinas Casnewydd
Mr. S. Phillips, Cyngor Sir Caerdydd
Mr. R. Lambourne, Cyngor Sir Caerdydd
Ms M Sinfield, Cyngor Sir Caerdydd
Mr H Sihgn, Cyngor Sir Caerdydd
Mr. C. Parish, Cyngor Bro Morgannwg

Ymddiheuriadau: Derbyniwyd gan:

Y Cyng. Truman, Cyngor Dinas Casnewydd
Y Cyng. Guy, Cyngor Dinas Casnewydd
Y Cyng. N Moore, Cyngor Bro Morgannwg
Y Cyng. A. Webb, Cyngor Sir Fynwy
Mr. M. Punter, Cyngor Bro Morgannwg

Eitem	Cofnodion	Camau Gweithredu
1	**<u>Cyflwyniad</u>** Gofynnodd y Cadeirydd i bawb oedd yn bresennol gyflwyno eu hunain gan ddweud enw a pha awdurdod roeddent yn cynrychioli.	

2	Roedd angen i M. Williams, Cyngor Sir Bwrdeistref Caerffili roi ei ymddiheuriadau ar ddechrau'r cyfarfod gan fod rhaid iddo adael y cyfarfod ar fyr rybudd yn annisgwyl. Rhestrir yr ymddiheuriadau eraill ar dudalen 1.	
3	**<u>Cofnodion Grŵp Llywio Aelodau a Gynhaliwyd ar 12/09/2007 ym Mro Morgannwg</u>** Derbyniwyd cofnodion drafft y cyfarfod uchod fel cofnod cywir o'r cyfarfod heb orfod eu cywiro. Doedd dim materion yn codi o'r cofnodion drafft.	Nodwyd
4	**<u>Egluro Rôl Aelodau y Grŵp Llywio a'u Cylch Gorchwyl</u>** Ailadroddodd y Cadeirydd yr hyn ddymunodd yng nghyfarfod diwethaf y grŵp hwn sef cael fframwaith sylfaenol o'r gweithdrefnau i'w mabwysiadu gan y grŵp. Teimlodd fod perygl o gamddealltwriaeth o'r angen sylfaenol hwn a rhoi gormod o sylw iddo. Cafwyd trafodaeth i ddilyn ynghylch y ffordd orau o lunio'r 'rheolau gweithredu' hyn. Cytunwyd y dylent fod mor anffurfiol â phosibl yn unol â'r rôl roedd y grŵp wedi cytuno arno, ond y byddai'n cynnwys canllaw i Aelodau ar faterion megis: (i) Cynrychiolaeth Aelod Wrth Gefn mewn cyfarfodydd ac (ii) Adrodd am fecanwaith i Awdurdodau unigol; Cytunwyd: (i) Bod Aelodau wrth gefn yn addas ond y dylai'r Aelodau hyn fod yn Aelodau Gweithredol; (ii) Y byddai'r Swyddfa Grŵp Cyfreithiol yn llunio protocol syml a fyddai'n rhoi fframwaith sylfaenol cyfarfodydd i'r grŵp; (iii) Drafft i'w ddarparu i gytuno arno yn y Cyfarfod Grŵp Llywio Aelodau nesaf.	Grŵp Swyddogion Cyfreithiol Prosiect Gwyrdd
5	**<u>Memorandwm Dealltwriaeth</u>** Rhoddwyd gwybod i Aelodau fod copi o Femorandwm Dealltwriaeth Swyddogion Cyfreithiol [darparwyd copi drafft yn y cyfarfod diwethaf] wedi ei ddosbarthu i bob un o'r pum Awdurdod unigol ar gyfer ei arwyddo.	Nodwyd

	Bydd y MD yn addas o nawr hyd at gwblhau y Braslun Achos Busnes (BAB) Gofynnodd y Cadeirydd am eglurhad am unrhyw newidiadau i'r drafft a ddosbarthwyd gynt gan roi gwybod fod y MD nawr yn cynnwys y gost i'r Awdurdodau unigol hyd at orffen y BAB.	Nodwyd Nodwyd
6	**<u>Papur Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Dargedau Dyfodol Ailgylchu, Compostio ac Ynni oddi wrth Wastraff – Trafodaeth ar Ymateb oddi wrth Prosiect Gwyrdd</u>** Rhoddwyd gwybod i'r grŵp yn ystod y drafodaeth am Bapur Y Cynulliad ac: (i) Bod awdurdodau lleol nawr yn dechrau cael eglurhad oedd wrth y Gweinidog; (ii) Bod y Gweinidog wedi ei annog gan a'i fod yn awyddus i drafod gyda grwpiau awdurdod lleol fel Prosiect Gwyrdd; (iii) Bydd deialog parhaus yn digwydd rhwng awdurdodau lleol a'r Gweinidog rhwng nawr a'r Nadolig. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd ar ran y Prosiect Gwyrdd yn ysgrifennu at y Gweinidog yn amlinellu pryderon y mae'r Papur yn eu codi ar gyfer Prosiect Gwyrdd yn gyffredinol i gytuno'n gyffredinol â'r llythyr y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi danfon ati yn ymwneud â thargedau y gellir cyrraedd atynt. Nodwyd fod y Gweinidog wedi cynnig siarad gydag Aelodau sy'n cynrychioli Prosiect Gwyrdd a chytunwyd bod y Cadeirydd yn gwahodd y Gweinidog i fynychu cyfarfod y Grŵp Llywio yn y dyfodol. (naill ai'r cyfarfod a drefnwyd nesaf neu gyfarfod ar wahân i gyd-fynd â dyddiadur y Gweinidog) Cytunwyd fod y Papur yn cynnwys rhai cyfyngiadau rhwng cydweithio a chyfrifoldeb ar wahân awdurdod lleol i gyflawni targedau. Bydd y posibilrwydd o bryder ynghylch newid yn gweithio yn erbyn cyflawni targedau.	Grŵp Swyddogion Technegol/Cadeirydd Cadeirydd Nodwyd
7	**<u>Rhaglen waith ar gyfer Ymgynghorwyr Allanol</u>** Rhoddwyd gwybod i Aelodau fod Ymgynghorwyr Technegol ac Ariannol wedi eu penodi nawr ac y bydd Ymgynghorwyr Cyfreithiol sydd i'w penodi yn gwneud hynny yn y dyfodol	Nodwyd

	agos. Rhoddwyd gwybod i Aelodau hefyd fod Prosiect Gwyrdd yn symud yn hyderus tuag at amserlen Chwefror 2008 i gynhyrchu BAB. Amserlen gyfredol a dogfennau Strwythur Prosiect Gwyrdd i'w dosbarthu er gwybodaeth i Aelodau. Amserlen Project i fod ar agenda cyfarfod Grŵp Llywio'r dyfodol ar gyfer trafod.	Grŵp Swyddogion Technegol Grŵp Swyddogion Technegol
8	**<u>Logo</u>** Dangoswyd tri (Rhifau 1, 2 a 3) Logo Prosiect Gwyrdd i Aelodau a ddatblygwyd gan Grŵp Cyfathrebu Prosiect Gwyrdd gan ofyn pa un oedd y mwyaf addas yn eu barn nhw. Ystyriodd yr Aelodau taw Rhif 1 o dri (*Thin Text Type)* oedd y mwyaf addas.	
9	**<u>Unrhyw Fater Arall</u>** Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod. Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Mercher 5 Rhagfyr 2007 am 5pm, Tredoman, Caerffili fydd lleoliad y cyfarfod nesaf.	